# ADRODDIAD
# CATS*
2022



CYMRU
*Cathod a'u Hystadegau

# Gwasanaethau a ddarperir gan Cats Protection

**Ail-gartrefu cathod** – Ar gyfer y rhai sy'n mabwysiadu cath neu ail-gartrefu cath.

www.cats.org.uk/contact-us or 03000 12 12 12

**Cymorth ysbaddu** – Darparu cymorth ariannol ar gyfer ysbaddu i filoedd o bobl bob blwyddyn.

www.cats.org.uk/neutering

**Sgyrsiau addysg** – Sgyrsiau am ddim mewn ysgolion (ar sail y cwricwlwm) a grwpiau cymunedol, rhoi cyngor i oedolion a phlant am ymddygiad cathod a pherchnogaeth anifeiliaid anwes cyfrifol.

www.cats.org.uk/education

**Gwarcheidwaid Cathod** – Gwasanaeth am ddim sydd â'r nod o roi tawelwch meddwl i berchnogion cathod sy'n pryderu beth allai ddigwydd pe bydden nhw'n marw cyn y gath.

www.cats.org.uk/catguardians or 01825 741 291

**Pawennau i Wrando** – Gwasanaeth cymorth profedigaeth am ddim dan arweiniaid gwrandawyr gwirfoddol cymwys, i'r rhai sy'n delio â cholli cath un ai drwy farwolaeth, mynd ar goll neu wahanu.

www.cats.org.uk/paws-to-listen or 0800 024 9494

**Cyngor cyffredinol** – Llinell gymorth i'r rhai sydd â chwestiynau am eu cathod eu hunain, neu gathod yn gyffredinol.

www.cats.org.uk/contact-us or 03000 12 12 12



5 Croeso

6 Sefyllfa'r genedl
6 Y boblogaeth gathod
6 Cyfran y perchnogion cathod fesul gwlad yn y DU
7 Proffil y perchnogion cathod

9 Y farchnad gathod
10 Pa fath o gathod sydd gan bobl?

12 Gofal milfeddygol
12 Cofrestru â milfeddyg
12 Ymweliadau â'r milfeddyg
13 Methu fforddio'r milfeddyg?
16 Yswiriant
17 Brechiadau
18 Triniaethau ataliol
20 Ysbaddu
22 Micro-sglodion
24 Iechyd a diet
25 Costau cynyddol bwyd

26 Ymddygiad a lles
26 Ffynonellau gwybodaeth
28 Amgylchedd cathod
29 Cathod gyda'r nos
30 Adnoddau ar gyfer cathod
32 Amddiffyn cathod rhag niwed
34 Tân gwyllt

36 Cwmnïaeth, heriau perchnogaeth a chostau byw
36 Pam mae pobl yn cael cathod?
37 Beth yw'r manteision o fod yn berchen ar gath?
38 Mae cathod yn rhan o'r teulu, ac yn bwysig i'n bywydau bob dydd
39 Fforddiadwyedd cathod

40 Beth sydd nesaf o fan hyn?

41 Crynodeb o'r ystadegau


# Methodoleg

Am y drydedd flynedd yn olynol, rydym wedi comisiynu asiantaeth allanol ac annibynnol, Basis Research, i wneud y gwaith ymchwil sy'n rhan o Adroddiad CATS Cymru 2022. Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth ymysg cynulleidfa sy'n gynrychioladol yn genedlaethol o oedolion dros 18 oed yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r DU, gan ein galluogi i amcangyfrif cyfran y perchnogion cathod. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg manylach ymysg perchnogion cathod. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 3 Mawrth 2022 ac 15 Ebrill 2022. Mae 'yn y 12 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod o amser rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2022. Oni bai y nodir yn wahanol, mae data cymharol yn yr arolwg hwn yn defnyddio data o Adroddiad CATS Cymru 2021.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys sampl oedd yn cynrychioli'r boblogaeth o 3,466 a hwb o 6,349 o berchnogion cathod, gyda hwb rhanbarthol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol yn yr ardaloedd hyn. Ar y cyfan, bu i 10,494 o bobl gymryd rhan yn yr arolwg ledled y DU, gan gynnwys 780 o berchnogion cathod yng Nghymru.

BASIS

# Cyflwyno'r data

Rydym yn gweithio gyda Basis Research er mwyn cyfrifo amcangyfrifon o'r boblogaeth gathod yn flynyddol. Defnyddir tair ffynhonnell ddata yn y cyfrifiad hwn:

- panel arolwg ar-lein sy'n cynrychioli'r genedl i bennu canran yr aelwydydd yn y DU sy'n berchen ar gath (n=3,466)
- data o'r arolwg o berchnogion cathod ar nifer y cathod y mae pob aelwyd yn berchen arni
- data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar nifer yr aelwydydd

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae ffigurau eraill, megis amcangyfrifon o'r gyfran o gathod yn y boblogaeth, wedi'u talgrynnu i ddau ffigur ystyrlon. Wrth gyfrifo amcangyfrifon cathod, rydym wedi defnyddio cyfanswm y ffigur amcangyfrifiedig o'r boblogaeth o gathod ac wedi'i luosi gyda'r canran cyfan e.e. nid yw 11% o'r holl berchnogion cathod wedi cofrestru'r gath gyda milfeddyg, sydd gyfwerth â 1.2 miliwn o gathod (11% * 11 miliwn o gathod = 1.2 miliwn).

Mae'r ystadegau a chyfrifiadau'r boblogaeth yn amcangyfrifon ar sail ymatebion perchnogion i'r arolwg ar-lein.

Cynhelir profion arwyddocâd ar gyfwng hyder 99% a 95%. Pan fydd canfyddiad yn cael ei nodi'n arwyddocaol yn yr adroddiad, ystyrir ei fod yn arwyddocaol ar gyfwng hyder 95%.

Oherwydd talgrynnu, bydd adegau yn yr adroddiad pan nid yw'r cyfrifiadau canran yn adio i 100%.

Cael cath: Drwy gydol yr adrodddiad byddwn yn edrych ar y niferoedd o gathod a gafodd eu perchnogi yn ddiweddar, yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â chyfnod arall e.e dros flwyddyn yn ôl. Mae'r data yn dod o'r cwestiwn 'pryd wnaethoch chi gael cath?' yn Arolwg Ymchwil CATS 2022.

Sampl sy'n cynrychioli'r genedl: Y boblogaeth sydd o ddiddordeb i ni yw poblogaeth gyfan y DU. Roedd y sampl sy'n cynrychioli'r genedl yn adlewyrchu ei strwythur gan gynnwys rhywedd, oedran, grwpiau cymdeithasol-economaidd a rhanbarthau.

Rhagor o wybodaeth ar gael ar gais



# Croeso i'r trydydd Adroddiad Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru blynyddol©

**Croeso i Adroddiad CATS Cymru 2022 – arolwg mwyaf cynhwysfawr perchnogion cathod a gynhelir yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r DU.**

Yn arolwg eleni, nodwyd fod llawer o berchnogion wedi dychwelyd i'w gweithleoedd arferol ac yn dechrau gweld effaith costau byw cynyddol. Gallai hyn fod wedi arwain at heriau i berchnogion cathod yn y 12 mis diwethaf, gyda rhagor o berchnogion cathod yn adrodd eleni eu bod yn ystyried bod yn berchen ar gath yn ymrwymiad sylweddol iddyn nhw.

Rhywbeth sy'n adlewyrchu hyn o bosibl yw'r ffaith fod perchnogaeth cathod wedi gostwng yng Nghymru yn 2022. Erbyn hyn, amcangyfrifir fod 560,000 o gathod ym mherchnogaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n galonogol gweld bod gan chwarter o aelwydydd yng Nghymru gath a'u bod yn gallu cael profiad o'r llu o fanteision sy'n deillio o fod yn berchen ar gath. Yn bendant, mae hynny'n rhywbeth y mae llawer o berchnogion cathod yn ei ddweud hefyd, gyda mwyafrif helaeth (88%) yn nodi fod eu cath yn dod â hapusrwydd i'w bywydau.

Mae'r boblogaeth uchel hon o berchnogion cathod yn anochel yn arwain at alw mawr am wasanaethau a gwybodaeth am anifeiliaid anwes, ac rydym wedi gweld perchnogion yn meddwl mwy ac yn poeni am eu cathod. Mae hyn yn rhoi llawer o alw ar ddarparwyr gwasanaethau anifeiliaid anwes, ac mae'r Adroddiad CATS 2022 yn amlygu rhai o'r heriau y mae perchnogion wedi dod ar eu traws o ran cael mynediad i ofal a chyngor milfeddygol.

Mae gan rai o'r tueddiadau a nodwyd y potensial i gael effaith ar les cathod. Mae'r rhain yn cynnwys symudiad sylweddol tuag at ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wrth chwilio am gath, a chynnydd yng nghyfran y cathod pedigri a chathod bridiau pur ym mhoblogaeth cathod anifeiliaid anwes cyffredinol. Mae cathod nad ydynt yn rhai bridiau pur (sy'n aml yn cael eu galw yn gathod domestig côt fer/hir neu moggies) yn byw'n hirach ar gyfartaledd na chathod bridiau pur ac fel arfer mae ganddynt lai o broblemau iechyd genetig, ac felly, dylid eu gwerthfawrogi a'u dathlu.

Mae'r Adroddiadau CATS yn rhoi mewnbwn digynsail i berchnogion cathod a'u canfyddiadau am les eu cathod. Mae deall yr heriau y mae perchnogion cathod yn eu hwynebu a chydnabod tueddiadau'n gynnar yn bwysig er mwyn helpu elusennau, gweithwyr proffesiynol milfeddygol a'r diwydiant anifeiliaid anwes yn ehangach i ddarparu'r gefnogaeth fwyaf briodol i berchnogion cathod.

Rydym yn awyddus i barhau i wneud y byd yn lle gwell i gathod. Y mwyaf yr ydym yn gwybod amdanyn nhw a'u bywydau, y mwyaf effeithiol y bydd ein hymdrechion parhaus i wella lles cathod.

**Dr Maggie Roberts MRCVS**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Milfeddygol**
**Cats Protection**



# Sefyllfa'r genedl

## Y boblogaeth gathod[1]

Ar y cyfan, mae nifer yr aelwydydd sy'n berchen ar gath yng Nghymru wedi gostwng eleni, gyda 28% yn berchen ar gath (sy'n ostyngiad ers 2021, pan roedd y canran yn 32%).

Mae **28%** o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar gath (32% yn 2021)

Bellach, mae dros **560,000** o gathod ym mherchnogaeth yng Nghymru

Gostyngiad o oddeutu **125,000** o gathod yn y 12 mis diwethaf

Mae nifer gyfartalog y cathod fesul aelwyd wedi gostwng yng Nghymru, o 1.6 yn 2021 i 1.5 eleni. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd un-gath, gyda 67% o'r aelwydydd sy'n berchen ar gath yn berchen ar un gath yn unig (58% yn 2021), a 33% yn berchen ar o leiaf dwy gath (42% yn 2021).

## Cyfran y perchnogion cathod fesul gwlad yn y DU[1]

Mae lefelau perchnogaeth cathod yn amrywio ledled y DU, gan amrywio o 24% o aelwydydd yn yr Alban yn berchen ar o leiaf un gath, i 28% o aelwydydd yng Nghymru.

*Poblogaeth y cathod ym mherchnogaeth*

| | Mewn miliynau | | % yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2022 | 2021 | 2022 |
| Cyfanswm DU | 10.8 | **11.0** | 26% | **26%** |
| **Yr Alban** | 0.7 | **0.9** | 20% | **24%** |
| **Cymru** | 0.7 | **0.6** | 32% | **28%** |
| **Gogledd Iwerddon** | 0.2 | **0.3** | 22% | **26%** |
| **Lloegr** | 9.4 | **9.2** | 27% | **26%** |

1 Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gennych chi gath(od) (yn byw gyda chi)?/Faint o gathod sydd gennych chi yn eich aelwyd?


Enghraifft o gyfrifiad: 26% yn berchen ar gath yn y DU x 28.1m o aelwydydd yn y DU* x yn berchen ar 1.5 o gathod ar gyfartaledd = 11m o gathod ym mherchnogaeth ledled y DU.

*Ffynhonnell: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholdsfamiliesandhouseholds

# Proffil y perchnogion cathod[2]


Does dim ffasiwn beth â pherchennog ‘arferol’, gyda phroffil perchnogion cathod yn parhau i fod yn amrywiol.

### Perchnogion cathod yng Nghymru yn ôl oedran




Mae’r rhai a gafodd gath yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf yn tueddu i fod yn iau na phroffil cyffredinol perchnogion cathod yng Nghymru, gyda bron hanner (46%) rhwng 18-34 oed, o gymharu â thraean (33%) o holl berchnogion cathod Cymru.

### Oedran perchnogion cathod yng Nghymru o gymharu ag aelwydydd Cymru





2 Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gennych chi gath(od) (sy’n byw gyda chi)?/Faint o gathod sy’n byw yn eich aelwyd?/Pryd gawsoch chi (e.e. prynu/mabwysiadu) eich cath?




## Rhyw

**33%**



o fenywod yng Nghymru yn berchen ar gath (42% yn 2021)

**25%**



o wrywod yng Nghymru yn berchen ar gath (21% yn 2021)

## Preswylfa[3]

**33%**

o breswylwyr ardaloedd gwledig yn berchen ar gath (42% yn 2021)

**25%**

o breswylwyr ardaloedd trefol yn berchen ar gath (29% yn 2021)

Mae **30%** o'r rhai sy'n rhentu eu cartrefi yng Nghymru yn berchen ar gath (31% yn 2021)

Mae **27%** o'r rhai sy'n berchen ar eu cartrefi yng Nghymru yn berchen ar gath (33% yn 2021)

3 Gan feddwl am eich prif aelwyd (ble rydych chi'n byw rhan fwyaf yr amser), pa un o'r canlynol sy'n disgrifio ei leoliad orau?/Gan feddwl am eich prif aelwyd, beth yw'r sefyllfa o ran perchnogaeth?

# Y farchnad gathod

Yn gyffredinol, yng Nghymru, cafodd 26% o'r cathod eu mabwysiadu o ganolfan elusen y DU, canolfan achub neu ail-gartrefu, cafodd 23% eu prynu a 20% eu mabwysiadu gan gymydog, ffrind neu aelod o'r teulu[4]. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd yng nghyfran y cathod a brynir o gymharu â'r llynedd. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ymhellach gan y ffaith fod 41% o'r cathod a gaffaelwyd yn y 12 mis diwethaf wedi cael eu prynu.


**Ym mhoblogaeth cathod Cymru, cafodd oddeutu:**

**150,000** eu mabwysiadu o rywle yn y DU
(180,000 yn 2021)

**130,000** eu prynu*
(140,000 yn 2021)

**110,000** eu mabwysiadu fel arall
(130,000 yn 2021)

**Sut cafodd y cathod eu caffael (pob cath ym mhoblogaeth bresennol cathod Cymru)[4]**




**Cafodd 13%[4] o boblogaeth bresennol cathod Cymru eu caffael yn y 12 mis diwethaf, sydd gyfwerth ag oddeutu 73,000 o gathod (90,000 yn 2021).**

**41%** wedi'u prynu*

**21%** wedi'u mabwysiadu o ganolfan achub/ail-gartrefu/lloches anifeiliaid yn y DU

**13%** wedi'u mabwysiadu gan gymydog/ffrind/aelod o'r teulu

4 Cwestiynau a ofynnwyd: O ble y cawsoch chi/mabwysiadoch chi eich cath?/Pryd y gwnaethoch chi gaffael (e.e. prynu/mabwysiadu) eich cath? Nid yw'n cynnwys y rhai a ddywedodd eu bod wedi prynu eu cath ond heb dalu.
Cafodd yr 17% o'r cathod sy'n weddill eu caffael yn un o'r ffyrdd canlynol: anrheg, fy nghath wnaeth fy mabwysiadu i (e.e. dechrau dod i gael bwyd ac wedi aros), gan rywun nad oeddwn i'n ei nabod yn ei chynnig am ddim, arall).

*Wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol yn y DU, wedi'i phrynu gan rywun rydw i'n ei adnabod sydd ddim yn fridiwr arbennig, wedi'i phrynu gan gymydog/ffrind/aelod o'r teulu, wedi'i phrynu o siop anifeiliaid anwes, wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol o dramor

# Pa fath o gathod sydd gan bobl?[5]

## Cathod bríd cymysg o'u cymharu â chathod pedigri

Mae 63% o berchnogion yng Nghymru yn nodi bod eu cathod yn moggies (cathod nad ydynt yn rhai o dras neu fridiau pur), 24% yn rhai pedigri, a 6% yn rhai traws-fridiau. Nid oedd y perchnogion sy’n weddill yn ymwybodol o frîd eu cathod.

### Canran y bridiau o gathod a gaffaelwyd yng Nghymru[5]

| | Cyfanswm y cathod anwes yng Nghymru | Cathod a gaffaelwyd yn y flwyddyn ddiwethaf |
|---|---|---|
| Brîd cymysg/domestig côt hir neu fyr | 63% | 58% |
| Cath bedigri | 24% | 25% |
| Traws-frid | 6% | 6% |
| Ddim yn gwybod | 8% | 11% |

5 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa frîd yw eich cath? Pryd gawsoch chi (e.e. prynu/mabwysiadu) eich cath?

6 Chang, et al. 2007, Farnworth, et al. (2017), Gunn-Moore, et al. (2008), Takanosu, et al. (2008), ICC a BVA Ymgyrch #HealthOverLooks

“Mae darpar berchnogion cathod i weld yn frwd dros geisio cathod pedigri, sy’n aml yn brin ac yn meddu nodweddion corfforol anarferol. Does dim dwywaith fod hyn wedi’i ategu gan y sylw positif yn y cyfryngau cymdeithasol y mae’r cathod hyn yn aml yn ei gael.

"Mae effaith problemau iechyd sy’n ymwneud â bridiau wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yn y byd cŵn - ac wedi arwain at y BBC yn tynnu nôl o sioe gŵn Crufts yn 2009 - ond mae llawer o’r rhai sy’n dwlu ar gathod yn anymwybodol o broblemau tebyg mewn bridiau o gathod. Un enghraifft yw’r Scottish Fold, brîd sydd wedi dod yn fwy poblogaidd mewn blynyddoedd diweddar. Mae’r cathod hyn yn dioddef mwtaniad genetig sy’n aml yn achosi heintiau poenus a difrifol oherwydd annormaleddau sylweddol i gartilag yr esgyrn (osteochondrodysplasia)[6].

"Wrth i fridiau o gathod ddod yn fwy amrywiol ac egsotig, mae risg y bydd problemau lles yn parhau i gynyddu. Mae gan fridwyr ddyletswydd i werthu cathod bach sy’n iach ac sy’n addas i fywyd mewn lleoliad domestig, ond efallai mai’r prynwyr cathod bach eu hunain sydd â’r grym mwyaf i annog newid positif o ran lles wrth fridio cathod."

**Dr Sarah Elliott MRCVS**
**Swyddog Milfeddygol Canolog Cats Protection**



# Cathod pedigri o'u cymharu a chathod bridiau pur

Cathod bridiau pur: brîd penodol o gath drwy fridio penodol, ac mae'r ddau riant yr un brîd.

Traws-frîd: brîd o gath drwy fridio gyda bridiau gwahanol, er enghraifft dwy gath brîd pur gwahanol neu gath brîd pur a chath nad yw'n brîd pur/cath brîd cymysg.

Cath bedigri: cath sydd wedi cofrestru gyda chorff llywodraethu, ac mae cofnod o'i llinach ar gael.

Yn yr adroddiad hwn, mae cathod pedigri a chathod bridiau pur wedi'u cynnwys yn y disgrifiad cathod pedigri, gyda chathod bridiau pur yn cael eu galw yn 'cathod pedigri heb waith papur' lle bo'n berthnasol.

Er mwyn ymchwilio ymhellach y tuedd newydd am boblogrwydd cynyddol cathod o dras, ychwanegwyd cwestiwn newydd i arolwg Adroddiad CATS Cymru 2022, oedd yn gofyn i berchnogion nodi a oedd eu cathod yn gathod o dras, a nodi i ba gymdeithas frîd yr oedd eu cathod wedi cofrestru gyda hi.

Y disgwyliad oedd y byddai canran sylweddol o gathod a gafodd eu nodi yn 'gathod o dras heb waith papur' mewn gwirionedd yn gathod moggy neu'n 'draws-fridiau', gyda pherchnogion yn anymwybodol o'r gymdeithas frîd a oedd wedi darparu'r gwaith papur. Dywedodd 40% o berchogion cathod moggy fod ganddynt waith papur cofrestriad ar gyfer eu cathod. Fodd bynnag, nododd y mwyafrif helaeth oedd yn honni fod ganddynt waith papur fod eu cath wedi cofrestru ag un o'r tair o gymdeithasau bridiau gorau (77%). Mae hyn yn codi i 85% ar gyfer perchnogion a wnaeth gaffael eu cathod yn y 12 mis diwethaf[7].

7 Cwestiwn a ofynnwyd: Pan brynoch/mabwysiadoch chi eich cath, a gawsoch chi unrhyw waith papur neu ardystiad i gadarnhau'r brîd?/Ac a yw eich cath wedi cofrestru ag un o'r cyrff cofrestru pedigri canlynol (wedi'i hidlo i gynnwys pawb oedd wedi derbyn gwaith papur yn cadarnhau brîd y gath)?/Pryd gawsoch chi (e.e. prynu/mabwysiadu) eich cath?

# Gofal milfeddygol

## Cofrestru â milfeddyg[8]

Mae 87% o berchnogion cathod yng Nghymru wedi cofrestru eu cath gyda milfeddyg, sydd ychydig yn is na chanran y llynedd (91%). Mae hyn yn golygu bod oddeutu 73,000 o gathod yng Nghymru heb gofrestru gyda milfeddyg.

Nid yw **13%** o gathod wedi cofrestru gyda milfeddyg

**Uwch ar gyfer:**

*perchnogion cathod diwaith* **25%**

*perchnogion cathod sy'n poeni am dalu'r biliau* **19%**

*perchnogion cathod rhwng 25-44 oed* **18%**



## Ymweliadau â'r milfeddyg[9]

Dywed 54% o'r holl berchnogion cathod yng Nghymru eu bod yn ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd bob blwyddyn, o gymharu â 60% o berchnogion cathod ledled y DU. Mae 41% o berchnogion cathod Cymru dim ond yn mynd at y milfeddyg pan fo angen, ac nid yw 5% yn mynd i ymweld â'r milfeddyg o gwbl. Golygu hyn fod oddeutu 260,000 o gathod o bosibl ddim yn cael profion iechyd rheolaidd, gan beri risg o gyflyrau iechyd yn cael eu hanwybyddu nes eu bod yn ddigon difrifol i gael effaith sylweddol ar les.

Mae perchnogion gwrywaidd a'r rhai rhwng 25-34 oed yn fwy tebygol o ymweld â'r milfeddyg yn gyson, yn ogystal â'r rheiny yn y dosbarthiadau cymdeithasol mwy cyfoethog (AB: 69%). Mae'r cathod hynny sy'n ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd yn fwy tebygol o gael eu hysbaddu, cael microsglodyn ac wedi cael yr holl frechiadau cyfredol.

### Rhwystrau o ran ymweld â'r milfeddyg

Mae rhesymau amrywiol dros berchnogion cathod Cymru yn peidio ag ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd, ond yn aml maent yn canolbwyntio ar y straen o fynd â'r gath yno, i'r gath neu'r perchennog (24%). Wedi dweud hyn, i 20% o berchnogion, y gost oedd y rhwystr mwyaf[10]. Mae hyn yn is na ffigur y llynedd, sef 27%, ond mae'r sefyllfa'n amlwg yn waeth ar gyfer y rhai â phryderon ariannol.

8 Cwestiwn a ofynnwyd: Yw eich cath wedi cofrestru gyda milfeddyg?

9 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml rydych chi'n tueddu i ymweld â'r milfeddyg?

10 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n eich atal rhag mynd â'ch cath at y milfeddyg cymaint ag yr hoffech chi ei wneud?

## Methu fforddio'r milfeddyg?

Dim ond 19% o berchnogion cathod sy'n poeni am filiau a chostau byw eraill sy'n mynd i weld y milfeddyg cymaint ag yr hoffent, o gymharu â 65% o berchnogion cathod nad ydynt yn poeni am gostau byw. Mae lleiafrif o 7%, sy'n peri pryder, yn poeni y bydd y milfeddyg yn ceisio gwerthu triniaethau ar gyfer y gath, yn enwedig ymysg rhai sy'n poeni am gostau byw (11%)[10].

Gyda phryder cynyddol o ran costau byw, mae risg y bydd mwy o berchnogion cathod yn petruso neu'n dewis peidio ag ymweld â'r milfeddyg, neu beidio â dilyn argymhellion y milfeddyg. Bydd hyn yn peri risg i iechyd a lles cathod.

Mae llawer o filfeddygon yn cynnig cymorth sydd wir yn cael ei werthfawrogi drwy gymhorthdalu am ofal iechyd milfeddygol, ac mae'n debygol y bydd hyn yn dod yn fwy arwyddocaol. Mae hefyd yn angenrheidiol bod milfeddygon yn egluro'n glir yr argymhellion milfeddygol, er mwyn annog cydymffurfiaeth drwy roi sicrwydd.

"Mae Adroddiad CATS 2022 yn datgelu fod perchnogion yn dod yn fwy pryderus am gostau gofal milfeddygol ar gyfer eu cathod. Mae mwy o berchnogion yn dibynnu ar gymorth elusennol ar ffurf talebion ysbaddu neu fanciau bwyd i helpu gyda'r gost o fod yn berchen ar gath. Wrth i'r costau byw barhau i godi yn 2022 a thu hwnt, bydd y proffesiwn milfeddygol a'r sector elusennol milfeddygol yn wynebu niferoedd cynyddol o berchnogion cathod mewn amgylchiadau ariannol anodd. Rhaid inni ddatblygu strategaethau rhagweithiol i leihau effaith yr argyfwng hwn ar les anifeiliaid."

**Dr Maggie Roberts MRCVS**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Milfeddygol**
**Cats Protection**

### Prif resymau dros beidio ag ymweld â'r milfeddyg cymaint ag y byddai'r perchennog yn ei hoffi[10a]

Y gost

**20%**

Uwch ar gyfer:

- y rhai sy'n ddiwaith: **33%**
- perchnogion cathod rhwng 35-44 oed: **29%**
- y rhai sy'n rhentu: **27%**

Mae'n peri gormod o straen i fy nghath

**16%**

Mae'n peri gormod o straen i mi i roi'r gath yn y cludwr/basged

**7%**

Does gen i ddim car, felly mae'n anodd teithio yno

**7%**

Rwy'n poeni y bydd y milfeddyg yn argymell triniaethau ychwanegol ar ben y rheswm dros ymweld

**7%**

**Chwilio am gyngor a hyfforddiant ar gludo cathod?**

www.cats.org.uk/how-to-choose-and-use-a-cat-carrier


sganiwch fi

10 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n eich atal rhag mynd â'ch cath at y milfeddyg cymaint ag yr hoffech chi ei wneud?
a) Dim ond ymatebion ag o leiaf 7% sydd wedi'u nodi

Mae perchnogion cathod Cymru yn fwy tebygol o ystyried mynediad at y milfeddyg yn broblem, gyda 42% wedi cael trafferth cyrraedd y milfeddyg yn y 12 mis diwethaf, o gymharu â 37% ledled y DU. Mae hyn yn cynyddu i 55% ymysg y rhai sydd wedi cael cath yn y 12 mis diwethaf. Awgryma'r data fod hyn yn rhannol oherwydd effeithiau tymor hir y pandemig, megis llai o oriau agor a gwasanaethau. Dywed 10% o'r perchnogion nad oes modd iddynt gael apwyntiad gan fod y milfeddyg mor brysur, a dywedodd 4% o'r holl berchnogion cathod eu bod wedi'i chael hi'n anodd cofrestru'r gath gan nad oedd y milfeddyg yn derbyn cwsmeriaid newydd. Mae hyn yn cynyddu i 10% o berchnogion cathod a gafodd eu cath yn y 12 mis diwethaf[11a].

Mae'n ymddangos bod mynediad at wasanaethau milfeddygol yn fwy o broblem i'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd trefol, gyda dros hanner (51%) y perchnogion sy'n byw mewn ardaloedd trefol canolog yn cael trafferthion yn hyn o beth.

### Rhesymau y mae perchnogion cathod Cymru wedi'i chael hi'n anodd cael mynediad i wasanaethau milfeddygol[11]




11 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am eich milfeddyg, ydych chi wedi profi unrhyw rai o'r canlynol dros y 12 mis diwethaf o ran eich cath?/Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml rydych chi'n tueddu i fynd at y milfeddyg?
a. Nododd y perchnogion 'Doedd dim modd i mi gofrestru gyda'r milfeddyg lleol gan nad yw'n derbyn cwsmeriaid newydd'




"Mae mynediad i ofal milfeddygol yn rhan hanfodol o fod yn berchen ar gath. Mae mynd afael â rhwystrau i ofal milfeddygol hygyrch fod yn flaenoriaeth i'r sector elusennol milfeddygol a'r proffesiwn milfeddygol yn ei gyfanrwydd."


**Dr Alison Richards MRCVS**
**Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Cats Protection**

## Yswiriant[12]


Mae nifer y cathod yswiriedig yng Nghymru wedi parhau'n eithaf sefydlog ar 38% (39% yn 2021), ond mae'n dal i fod yn is na chanran y cathod sydd wedi'u hyswirio ledled y DU (46%). O gymharu â'r holl berchnogion cathod sy'n byw yng Nghymru, mae cyfran uwch o gathod yswiriedig ymysg perchnogion cathod iau, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol canolog.

**Perchnogion yng Nghymru sydd wedi cael yswiriant ar gyfer eu cathod**






ar gyfer perchnogion rhwng 18-34 oed




ar gyfer perchnogion rhwng 35-54




ar gyfer perchnogion o leiaf 55 oed




ar gyfer perchnogion sy'n byw mewn ardaloedd trefol canolog



12Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gennych chi yswiriant anifeiliaid anwes ar gyfer eich cath?


## Brechiadau[13]

Mae 69% o gathod Cymru (390,000 o gathod) wedi cael eu brechiadau cyfredol, yn ôl y perchnogion, sy'n gynnydd ar ffigur y llynedd (63%). Efallai fod hyn gan fod mwy o bractisau milfeddygol yn cynnig triniaethau ataliol megis brechiadau unwaith eto, o gymharu â'r llynedd pan roedd llawer o bractisau'n cynnig llai o wasanaethau oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Dywedodd 14% o berchnogion Cymru fod eu cathod wedi cael rhai o frechiadau, ond nid pob un cyfredol, a bod 8% heb gael brechiad o gwbl.

Nid yw hyd at 175,000 cats o gathod yng Nghymru wedi'u hamddiffyn yn erbyn heintiau y mae modd eu hatal drwy frechu.




### Sut roedd perchnogion Cymru'n adrodd am statws brechiadau eu cathod





13 Cwestiwn a ofynnwyd: Yw eich cath wedi cael yr holl frechiadau cyfredol (h.y. wedi cael y brechiadau atgyfnerthu fel sy'n berthnasol i oedran)?

## Triniaethau ataliol[14]

Mae llai na dau draean o berchnogion Cymru yn amddiffyn eu cathod yn erbyn parasitiaid megis chwain (60%) a llyngyrod (61%) drwy'r flwyddyn, yn unol â chyngor y milfeddyg neu'r label triniaeth parasitiaid. Mae hyn yn is na chanran y llynedd (64% ar gyfer chwain a llyngyrod).

Mae 6% yn trin eu cathod ar gyfer chwain llai nag unwaith y flwyddyn os o gwbl; 10% yw'r canran yma ar gyfer llyngyrod. Mae 13% o berchnogion ddim ond yn trin eu cathod yn ystod misoedd yr haf, ond gall chwain fyw yn ein cartrefi drwy'r flwyddyn oherwydd gwres canolog a dodrefn meddal.

Gall fod sawl rheswm pam fod perchnogion yn dewis peidio â defnyddio cynnyrch atal parasitiaid. Llawfeddygon milfeddygol sydd yn y sefyllfa orau i argymell pa mor aml y dylid defnyddio triniaeth parasitiaid ar gyfer pob cath unigol dan eu gofal. Efallai y byddant yn argymell trin yn llai aml os yw risg y gath o haint yn isel iawn oherwydd ei hamgylchedd a'i ffordd o fyw. Gyda phryderon cynyddol am bethau fel costau byw ac effaith amgylcheddol cynnyrch parasitiaid, rhaid taro balans yn ofalus er mwyn sicrhau iechyd a lles cathod.



14 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa mor aml ydych chi'n tueddu i amddiffyn eich cath rhag chwain?/Pa mor aml ydych chi'n rhoi triniaeth llyngyrod i'ch cath?

Dylid amddiffyn cathod yn erbyn parasitiaid yn ôl eu risgiau unigol a risgiau'r aelwyd. Felly, mae Cats Protection yn argymell dilyn canllawiau Cyngor Gwyddonol Ewropeaidd ar gyfer Parasitiaid Anifeiliaid Anwes (ESCCAP) ar gyfer pob cath.


www.esccapuk.org.uk/guidelines-uk/

sganiwch fi



## Ysbaddu[15]

Mae 80% o gathod Cymru (450,000 o gathod) wedi'u hysbaddu, sy'n llai na'r llynedd (90%). Mae cyfran y cathod sydd wedi'u hysbaddu yn is ymysg cathod a gaffaelwyd yn y 12 mis diwethaf (mae 62% wedi'u hysbaddu, 35% heb eu hysbaddu, 3% ddim yn gwybod). Mae'r gostyngiad hwn yn y ffigurau ysbaddu o bosibl yn gysylltiedig â diffyg canghennau Cats Protection gweithredol yng Nghymru, ar y cyd â chyfraddau defnyddio ymgyrchoedd ysbaddu Cats Protection mewn practisau milfeddygol yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.




15 Cwestiwn a ofynnwyd: Yw eich cath wedi'i hysbaddu/dirywio?




## Y cathod sy'n llai tebygol o fod wedi'u hysbaddu

Mae perchnogion cathod iau rhwng 18 a 34 oed yn llai tebygol o fod wedi ysbaddu eu cath ar adeg adrodd (68%), o gymharu ag 81% o berchnogion rhwng 35 a 53 a 92% ar gyfer perchnogion dros 55 oed.

Er mwyn deall yn well pam fod 79,000 o gathod Cymru heb eu hysbaddu, gofynnwyd i berchnogion cathod y rheswm dros beidio ag ysbaddu'r gath am y tro cyntaf eleni. Mae'r costau'n chwarae rhan fawr yn y penderfyniad am ysbaddu, gydag 13% o berchnogion Cymru yn dweud na allant fforddio ysbaddu.

Mae'r ffaith fod bron un ym mhob pump o berchnogion (19%) yn dweud eu bod wedi dewis peidio ag ysbaddu eu cath gan nad yw'n mynd i'r awyr agored yn peri pryder o bosibl. Mae cathod tŷ yn dal i fod â risg o feichiogrwydd damweiniol a'r holl risgiau eraill sydd ynghlwm wrth beidio ag ysbaddu, gan gynnwys pyometria (haint ar y groth) a chanserau tethol. Gyda chyfran y cathod tŷ yn cynyddu yng Nghymru (38% v 28% yn 2021), gall codi ymwybyddiaeth perchnogion o'r pwnc hwn fod yn fuddiol.

**Prif resymau y mae perchnogion cathod yng Nghymru yn dewis peidio ag ysbaddu[16]**




Mae torllwythi digroeso o gathod bach yn arwain at filoedd o gathod yn dioddef, ac yn rhoi straen enfawr ar adnoddau elusennol. Mae nifer y cathod sydd heb eu hysbaddu yn parhau i beri pryder i elusennau megis Cats Protection, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw, lle mae cyfraddau gadael cathod ymysg perchnogion yn debygol o gynyddu. Mae amseru'r ysbaddu yn hanfodol er mwyn atal torllwythi anfwriadol a digroeso o gathod bach. Mae CatKIND (y mae Cats Protection yn aelod-sylfaenydd ohono) yn galw ar bob milfeddyg i fanteisio ar ysbaddu cyn-glasoed fel ymarfer ysbaddu safonol."

**Jane Clements**
**Pennaeth Ysbaddu Cats Protection**

www.cat-kind.org.uk

16 Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw'r prif resymau dros beidio ag ysbaddu eich cath? Wedi'i hidlo yn ôl perchnogion cathod sydd heb gael eu hysbaddu. Dim ond yr ymatebion dros 9% sy'n cael eu harddangos

## Micro-sglodion

Mae gan 66% o gathod Cymru ficro-sglodyn, nid oes gan 28% ac nid yw 6% o berchnogion yn gwybod a oes gan y gath ficro-sglodyn[17]. Mae hyn ychydig yn is na ffigurau y llynedd (roedd gan 69% ficro-sglodyn, nid oedd gan 27% ac nid oedd 4% yn gwybod). Mae hefyd yn is na ffigur cyfartalog y DU ar gyfer cathod â micro-sglodion (71%).

**Prif resymau y mae perchnogion cathod Cymru yn dewis peidio â rhoi micro-sglodyn[18]**








Gyda 11% o berchnogion cathod sydd heb sicrhau micro-sglodyn i'w cathod yng Nghymru yn ddim yn gwybod o sut y bydden nhw'n mynd ati i gyflawni hyn, mae'n amlwg fod angen rhagor o addysg am hyn hefyd. Mae gwella ymwybyddiaeth ac addysg am ficro-sglodion, yn ogystal â gwella hygyrchedd gwasanaethau micro-sglodion, yn rhan bwysig iawn o'r gwaith y mae Cats Protection yn ei wneud.

17 Cwestiwn a ofynnwyd: Oes gan eich cath ficro-sglodyn?

18 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau y rhesymau pam nad yw eich cath wedi cael micro-sglodyn? Dim ond ymatebion o leiaf 10% sydd wedi'u harddangos.

## Micro-sglodion a sicrhau bod y manylion yn gyfredol[19]

Rhywbeth sy'n rhoi sicrwydd yw'r ffaith fod 88% o berchnogion Cymru sydd wedi rhoi micro-sglodyn i'w cathod yn nodi fod y manylion yn gyfredol. Mae hyn yn bositif iawn, gan ei fod yn golygu bod modd cysylltu â'r perchennog yn y rhan fwyaf o achosion o gathod yn cael eu hanafu neu'n mynd ar goll.



**88%**

o gathod gyda microsglodyn gathod yn cael eu cyfredol

**O'r rhai a ddywedodd fod manylion microsglodyn eu cathod yn gyfredol:**

- Mae **84%** yn dweud bod eu rhif ffôn yn gyfredol
- Mae **81%** yn dweud bod eu cyfeiriad yn gyfredol
- Mae **74%** yn dweud bod eu cyfeiriad e-bost yn gyfredol
- Mae **7%** yn ansicr o ran pa fanylion penodol sy'n gyfredol

"Mae microsglodion yn ddiogel, yn rhwydd eu gosod, yn effeithiol ac yn ddull adnabod parhaol. Siomedig yw gweld fod cyfraddau microsglodion cathod wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod dros chwarter y cathod yn dal i fod heb ficrosglodyn, sy'n rhoi cyfle bach iawn iddynt gael eu hadnabod a'u dychwelyd i'w perchnogion pe byddent yn mynd ar goll neu'n cael eu dwyn.

"Mae Llywodraeth San Steffan wedi ymrwymo i gyflwyno microsglodion gorfodol i gathod sy'n anifeiliaid anwes yn Lloegr; mae Cats Protection yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr un peth cyn gynted ag sy'n bosibl."

**Madison Rogers**
**Pennaeth Dros Dro Eiriolaeth a Pherthnasoedd â'r Llywodraeth**
**Cats Protection**

19 Cwestiynau a ofynnwyd: A yw manylion cofrestredig microsglodyn eich cath yn gyfredol?/Pa rai o'r manylion microsglodyn canlynol sydd yn gyfredol?


# Iechyd a diet

## Cyflyrau iechyd[20]

Mae lefel yr heintiau sydd wedi cael diagnosis yng nghathod y genedl wedi cynyddu (yn ôl eu perchnogion). Mae 71% o berchnogion cathod Cymru yn dweud nad oes gan eu cathod gyflyrau iechyd o gwbl, o gymharu â 79% yn 2021.

Gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel) yw'r cyflwr iechyd yr adroddwyd amdano amlaf (4%), ac yna afiechyd deintyddol (3%) ac afiechyd y llwybr wrinol (3%).

### Pum cyflwr iechyd a nodwyd amlaf fel ymateb






20 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi cael diagnosis o rai o'r materion/cyflyrau iechyd hyn?

## Diet a phwysau'r corff[21]


Mae mwy o berchnogion Cymru yn meddwl bod eu cathod dan bwysau (40%) o gymharu â'r llynedd (35%), ac yn llai tebygol o feddwl bod eu cath ar bwysau delfrydol (25%, i lawr ers 27% yn 2021) neu dros bwysau (29%, i lawr o 32%).

Mae perchnogion gwrywaidd yn fwy tebygol o nodi fod eu cathod dan bwysau (48%) na pherchnogion benywaidd (34%). Mae'r un peth yn wir am y rhai sy'n nodi fod eu cath yn 'ddelfrydol' (22% o berchnogion gwrywaidd, 28% o berchnogion benywaidd). Nododd 32% o berchnogion benywaidd bod eu cath dros bwysau, o gymharu â dim ond 24% o berchnogion gwrywaidd.

Mae'r rhai sy'n poeni am gostau byw yn fwy tebygol o gredu bod eu cath dan bwysau (53%, o gymharu â 35% o'r rhai nad ydynt yn poeni am gostau byw). Mae perchnogion iau hefyd yn nodi fod eu cathod dan bwysau'n amlach na pherchnogion hŷn (18-34: 46%, 35-54: 42%, 55+: 29%).

Fodd bynnag, mae gordewdra yn parhau i fod yn broblem iechyd i gathod. Mae'n fwy tebygol y bydd adroddiadau bod cathod o frîd cymysg yn gathod dros bwysau o'u cymharu â chathod pedigri (33% vs 24%). Yn ogystal â diet, mae ymarfer corff yn elfen allweddol ar reoli pwysau'r corff, ac mae perchnogion iau yn fwy tebygol o chwarae'n actif gyda'u cathod yn rheolaidd (18-34%: 71%, 35-54: 66%, 55+: 61%)[22].

Rhaid pwysleisio mai'r perchnogion sy'n cyfrannu'r data at Adroddiad CATS 2022. Mae ffigurau milfeddygol ar gyfer gordewdra ymysg cathod yn y DU yn amrywio, gyda rhai astudiaethau'n nodi fod hyd at 44% o gathod dros eu pwysau[23,24]. Nodir hefyd fod gordewdra yn debygol o gael ei dan-adrodd yn ddramatig mewn practisau gofal milfeddygol[24].




21 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r disgrifiadau a'r delweddau canlynol fyddai'n adlewyrchu eich cath orau yn eich barn chi, o ran maint?

22 Cwestiwn a ofynnwyd: Mewn wythnos gyfartalog, pa mor aml ydych chi'n gwneud pob un o'r canlynol gyda'ch cath (Chwarae gyda'ch gilydd yn actif - e.e. gyda theganau, peli, peli danteithion, tegan gwialen bysgota ac ati)? Yr ymateb yn y ddau focs uchaf wedi'i nodi

23 Horwitz; BSAVA Manual of Canine and Feline Behavioural Medicine, pennod 4

24 O'Neill (2014)

25 Food Foundation, Food Prices Indices Tracker, 2022

26 Cwestiwn a ofynnwyd: Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r isod, os o gwbl, sy'n berthnasol i chi?

## Costau cynyddol bwyd

Cododd prisiau bwyd 6.3% rhwng mis Ebrill 2021 a Mawrth 2022[25], ac ar sail rhagfynegiadau economaidd, mae disgwyl i'r tuedd hon barhau. Er na fydd effaith lawn yr argyfwng costau byw yn amlwg yn adroddiad eleni, mae 4% o berchnogion cathod Cymru wedi gorfod lleihau gwariant ar hanfodion i gathod, megis bwyd cathod a gwasarn cathod i arbed arian ac mae 4% o berchnogion wedi gorfod defnyddio banc bwyd neu elusen i'w helpu nhw i fwydo eu cathod yn y 12 mis diwethaf[26].

Gall gorfod gwneud penderfyniadau anodd am sut i fwydo cath arwain at emosiynau cymhleth i'r perchennog. Mae'n hanfodol fod perchnogion cathod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud y penderfyniadau gorau i'w cathod, a chael mynediad i gymorth ymarferol ac emosiynol, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol.

# Ymddygiad a lles

## Ffynonellau gwybodaeth

### Ymchwil cyn caffael

Mae cyfran y perchnogion cathod yng Nghymru sy'n honni eu bod wedi gwneud llawer o waith ymchwil cyn cael cath yn cynyddu (38% eleni, o gymharu â 26% yn 2021)[27].

"Gyda'r galw cynyddol ar bractisau milfeddygol, nid yw pob perchennog yn credu ei fod yn gallu mynd at y practis milfeddygol lleol gyda chwestiynau neu bryderon am y gath. Efallai nad practisau milfeddygol yw'r brif ffynhonnell o gyngor i lawer o berchnogion, ond gweithwyr proffesiynol milfeddygol yw'r bobl y dylai perchnogion droi atynt yn gyntaf gyda chwestiynau am iechyd, diogelwch, cysur, maeth a lles cyffredinol y gath."

**Dr Kit Sturgess PhD, FRCVS**
**Cadeirydd Ymddiriedolwyr**
**Cats Protection**

### Cyngor ar gathod

Mae dros hanner perchnogion cathod Cymru (52%) yn cytuno fod gwybodaeth ddibynadwy o safon dda am gathod yn dod yn fwy hygyrch[28].

Mae

**52%**

o berchnogion cathod Cymru yn ceisio cyngor neu wybodaeth am eu cath(od) neu'n gwylio fideos gwybodaeth am gathod ar-lein o leiaf unwaith y mis[29].

(40% yn 2021)


Mae ffynhonnell y wybodaeth hon yn gynyddol yn dod o rywle AR WAHÂN i filfeddyg (65% yn 2020 a 2021, a 52% yn 2022). Mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn is ar gyfer perchnogion Cymru sydd wedi cael cath yn y 12 mis diwethaf (40%). Mae chwiliadau ar y we am wybodaeth am gathod hefyd ar i lawr, o 51% o berchnogion yn dewis peiriannau chwilio megis Google i gael gwybodaeth am gathod yn 2021, i 47% yn 2022. Yn hytrach, mae pobl i weld yn dychwelyd at ffynonellau gwybodaeth mwy traddodiadol, gan gynnwys llyfrau.

27 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno ar y datganiad canlynol (Nes i lawer o ymchwil cyn cael fy nghathod)? Roedd y ddau brif fwlch ymateb yn cynnwys (1 = cytuno'n gryf, 7 = anghytuno'n gryf)

28 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno ar y datganiad canlynol (Mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy o safon am gathod)? Roedd y dau brif fwlch ymateb yn cynnwys (1 = cytuno'n gryf, 7 = anghytuno'n gryf)

29 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n tueddu i wneud y canlynol?

## Ym mhle mae pobl yn ceisio cyngor am gathod?[30]




Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am gathod i lawer, gydag 16% o berchnogion yn dewis dod o hyd i wybodaeth am eu cathod fan hyn (17% yn 2021)[30]. Mae bron pob platfform ar y cyfryngau cymdeithasol wedi gweld cynnydd ym mhoblogrwydd yn hyn o beth, ond Facebook a YouTube sy'n dal i fod y platfformau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd o ran ffynhonnell wybodaeth am gathod (FB: 31%, YT: 33%)[31]. Mae'r lefel uchel o ymgysylltiad â'r cyfryngau cymdeithasol am gathod yn ei gwneud hi'n bwysig fod amrywiaeth o blatfformau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael eu defnyddio gan sefydliadau lles anifeiliaid fel ffordd o rannu gwybodaeth gywir a dibynadwy.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffynhonnell boblogaidd o gynnwys 'hwyliog' am gathod i lawer o berchnogion cathod yng Nghymru, gyda 42% yn troi at Facebook a 41% yn ymweld ag YouTube i gael gweld fideos am gathod, memes a delweddau hwyliog[32].

"Er bod llawer o gynnwys gwych am gathod ar y rhyngrwyd, mae rhai tueddiadau sy'n cymylu'r ffiniau rhwng adegau gyda dim dioddef, a cham-drin anifeiliaid anwes go iawn. Mae Cats Protection yn ymwybodol o 'heriau anifeiliaid anwes' ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys cathod gyda thâp yn sownd ar eu traed, gwisgo dillad bodau dynol, gorfodi eu clustiau mewn bandiau gwallt, perchnogion yn gwisgo mygydau er mwyn codi ofn ar eu hanifeiliaid anwes yn fwriadol, a hyd yn oed yn waeth…

"Nid yw anifeiliaid yma i roi adloniant i ni, ac ni ddylent orfod dioddef trawma seicolegol a straen difrifol er difyrrwch. Mae Cats Protection yn erfyn ar ddefnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol i addysgu eu hunain am arwyddion straen ymysg anifeiliaid i sicrhau nad ydyn nhw'n gwylio, na'n creu cynnwys sy'n greulon ac sy'n peri straen i anifeiliaid."

**Nicky Trevorrow**
**Rheolwr Ymddygiad Cats Protection**

30 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol fyddech chi'n ei wneud petaech chi'n chwilio am wybodaeth neu gyngor am eich cath(od)?

31 Cwestiynau a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio/ymweld â nhw yn rheolaidd wrth chwilio am gynnwys am gathod (gwybodaeth/cyngor)?

32 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio/ymweld â nhw yn rheolaidd wrth edrych ar gynnwys yn ymwneud â chathod (cynnwys hwyliog)?


*www.thecatgroup.org.uk/pdfs/The-Kitten-Checklist.pdf

## Amgylchedd cathod

### Cathod dan do o'u cymharu â chathod awyr agored

Mae gan lai o gathod yng Nghymru ffordd o fyw dan do/awyr agored (68% y llynedd, 59% eleni) ac mae mwy o gathod yn byw dan do yn unig (28% y llynedd, 38% eleni). Mae hyn yn benodol wir am berchnogion cathod iau a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Mae'r bobl hyn o bosibl yn llai tebygol i fod â gerddi, felly efallai bod dim dewis o ran cael cath dan do.

**Trefniadau byw cathod[33]**




"Awgryma Adroddiad CATS 2022 fod mwy a mwy o gathod yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes y tu mewn yn unig. Yn aml, mae perchnogion yn gwneud y penderfyniad hwn er mwyn lleihau'r risg o ddamweiniau y tu allan, neu i amddiffyn iechyd eu cath. Fodd bynnag, mae bywyd y tu mewn yn unig yn peri risgiau hefyd, yn enwedig o ran lles emosiynol y gath. Mae'n bosibl y bydd cathod mewn perygl o deimlo'n ddiflas a rhwystredig, ac mae cathod sy'n profi'r emosiynau negyddol hyn yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad digroeso neu ymddygiad sy'n ymwneud â ymwneud â straen megis crafu, ymddygiad ymosodol rhwng cathod mewn aelwydydd gyda llawer o gathod, ac ymddygiad ymosodol tuag at bobl. Gall hyn gael goblygiadau negyddol i'r cysylltiad rhwng y gath a'r perchennog."

**Rae Foreman-Worsley**
**Ymchwilydd Cyswllt Lles Cathod Cats Protection**

33 Cwestiwn a ofynnwyd: Pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i'ch cath?



## Cathod gyda'r nos

Ar gyfer y cathod hynny sydd â mynediad i'r awyr agored, mae 44% yn gallu mynd a dod fel y mynnent gyda'r nos, sy'n is na ffigur 2021, oedd yn 49%[34]. Mae cathod fwyaf actif yn ystod y wawr a'r machlud, gan ddewis yr adeg hon i hela, crwydro a mynd i diroedd cathod eraill.

Mae Cats Protection yn argymell fod cathod yn cael eu cadw dan do dros nos, er mwyn lleihau'r risg o anafiadau oherwydd damweiniau ar y ffordd, ymladd gyda chathod/anifeiliaid eraill ac ysglyfaethu bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn, ac yn enwedig yn bwysig i gathod gyda llawer o egni neu'r rhai sydd fwyaf actif yn ystod yr wawr neu'r machlud, fod y gath yn cael digon o symbyliad gwybyddol a chorfforol (h.y. teganau a phosau bwydo) er mwyn atal diflastod a rhwystredigaeth yn ystod y cyfnodau dan do.

34 Cwestiynau a ofynnwyd: Oes gan eich cath fynediad i'r awyr agored dros nos?

# Adnoddau ar gyfer cathod[35]

Mae darpariaeth adnoddau ddigonol i gathod yn bwysig iawn er mwyn bodloni eu hanghenion corfforol ac emosiynol. Mae hyn hefyd yn agwedd bwysig iawn ar hyrwyddo harmoni a lleihau gwrthdaro o fewn aelwydydd gyda llawer o gathod.

Yn enwedig mewn aelwydydd ag un gath, mae darpariaeth adnoddau i weld wedi cynyddu ers y llynedd. Fodd bynnag, does dim cymaint o gynnydd mewn aelwydydd gyda llawer o gathod, lle gall darpariaeth adnoddau annigonol arwain at ymddygiad ymosodol rhwng cathod.

### Nifer gyfartalog yr adnoddau fesul cath

| | 🐱 | | 🐱🐱 | | 🐱🐱🐱 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021 | **2022** | 2021 | **2022** | 2021 | **2022** |
| **Powlenni bwyd** | 2.3 | 3.9 | 2.8 | 3.2 | 4.4 | 5.1 |
| **Powlenni dŵr** | 1.7 | 3.5 | 2 | 2.4 | 2.6 | 3.3 |
| **Blychau gwasarn** | 1.2 | 3.1 | 1.5 | 1.8 | 2.1 | 2.6 |
| **Polion crafu** | 1.5 | 3.3 | 1.9 | 2.2 | 2 | 2.2 |
| **Gwelyau cathod** | 1.8 | 3.5 | 2.2 | 2.6 | 3.5 | 3.8 |
| **Lleoedd cuddio** | 2.2 | 4.1 | 2.9 | 3.4 | 3.4 | 4.2 |

35 Cwestiynau a ofynnwyd: Faint o'r canlynol, os o gwbl, oes gennych chi yn eich cartref ac sydd ar gael i'ch cath(od) eu defnyddio ar un adeg?

# Mae adnoddau'n bwysig – stori Gimli

Roedd Gimli ar restr aros i gael lle mewn canolfan ail-gartrefu gan ei bod wedi bod yn pi-pi y tu allan i'w blwch gwasarn. Roedd ei pherchnogion yn hynod amharod i'w hail-gartrefu, ond roedden nhw'n teimlo eu bod yn rhedeg allan o opsiynau.

Fel sy'n hanfodol bob amser, aeth y perchnogion â Gimli at y milfeddyg a bu i'r milfeddyg ddiystyru unrhyw achosion meddygol am yr ymddygiad. Yna, asesodd tîm Ymddygiad Cats Protection Gimli, a chanfuwyd ei bod yn gath bryderus oedd yn rhannu ei chartref gyda chath arall (Frodo). Yn ogystal â rhoi mesurau ar waith i leihau straen, un o'r prif argymhellion o ran datrys problemau Gimli oedd cynyddu nifer y blychau gwasarn o ddau i dri. Roedd lleoliad y blychau hyn hefyd yn hanfodol; argymhellwyd rhoi 'lleoedd' personol i'r cathod yn y cartref, fel bod modd iddynt osgoi ei gilydd a defnyddio'u hadnoddau yn hamddenol os oeddent eisiau.

Er bod y perchnogion eisoes yn gwneud yn dda drwy ddarparu un blwch fesul cath, bu i'r blwch ychwanegol wneud gwahaniaeth mawr. Rhoddodd gyfle i Gimli ddewis pa doiled yr oedd yn teimlo fwyaf cyfforddus ynddo.

Tri mis wedi gweithredu'r newidiadau hyn, cysylltodd perchennog Gimli a dweud: "Mae Gimli yn gath hollol wahanol! Mae'n wych, (croesi bysedd) mae hi wedi bod yn defnyddio ei blwch gwasarn bob amser, a does dim llawer o ddamweiniau wedi bod ers inni greu lle diogel iddi hi a'i blwch."

Roedd perchnogion Gimli yn gallu cadw eu hanifail anwes ond yn bwysicach na dim, roedd Gimli yn amlwg yn fwy cyfforddus gyda'i hopsiynau toiled. Felly, gyda rhai mesurau lleihau straen syml, cynnydd mewn adnoddau a pherchnogion a oedd wir yn fodlon gwrando ar gyngor, daeth popeth i ben yn bositif.



## Amddiffyn cathod rhag niwed[36]

Dywedodd 33% o berchnogion cathod Cymru fod eu cath wedi cael ei hanafu yn ystod yr amser y maent wedi bod yn berchen arni. Roedd un rhan o bump pumed (20%) o'r anafiadau hyn wedi deillio o ymladd gyda chathod neu anifeiliaid eraill - roedd 11% gyda chathod o aelwyd arall. Roedd 6% o'r anafiadau wedi digwydd oherwydd damwain ar y ffordd, a chododd y ffigur hwn i 9% mewn ardaloedd trefol.

## Ymddygiad a straen[37]

Nodir fod bron tri chwarter o gathod Cymru (71%) yn arddangos o leiaf un ymddygiad a all fod yn arwydd o straen. Mae hyn yn gyfran uchel iawn o gathod, sy'n peri pryder, er ein bod yn cydnabod y gall adnabod straen mewn cathod fod yn heriol iawn, ac yn aml mae angen deall y cyd-destun er mwyn deall a dehongli ymddygiad yn gywir.


Oherwydd y defnydd o restr fwy cynhwysfawr a chynrychioladol o ymddygiad eleni, mae hi'n anodd cymharu â data'r llynedd.

**71%**

**o gathod yn arddangos o leiaf un ymddygiad straen**

**20%**

**o gathod yn arddangos tri neu fwy o ymddygiad straen**




36 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath wedi cael ei hanafu ers ichi fod yn berchen arni?

37 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r canlynol y mae eich cath yn tueddu i'w gwneud, o leiaf ychydig o'r amser?/Pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu hystyried yn ymddygiad problemus yr hoffech eu newid?

Mae perchnogion yn dueddol o fod yn fwy ymwybodol o ddangosyddion straen ymddygiadol sy’n amlwg iawn, ac sy’n cael effaith negyddol arnyn nhw. Y rhain y maen nhw’n eu hystyried yn broblem. Mae’n bosibl na fydd perchnogion yn aml yn sylwi ar ymddygiad straen sy’n llai amlwg, felly mae’n bosibl fod mwy o gathod yn arddangos ymddygiad straen na’r hyn yr adroddwyd amdanynt. Dyna pam mae addysg ac ymwybyddiaeth ynghylch sut mae cathod yn arddangos straen, ac hyd yn oed yn well, sut i osgoi straen i gathod yn y lle cyntaf, yn hanfodol er mwyn sicrhau lles cathod.

### Ymddygiad cathod a phryder perchnogion[37]




## Chwilio am gymorth ar gyfer ymddygiad sy'n 'broblem'[38]

Mae 34% o’r perchnogion sydd wedi nodi fod ymddygiad straen eu cath yn broblem wedi ceisio cymorth proffesiynol am yr ymddygiad, ac mae 42% wedi ceisio gwybodaeth neu gyngor dros eu hunain.

37 Cwestiynau a ofynnwyd: Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o’r canlynol y mae eich cath yn tueddu i’w gwneud, o leiaf ychydig o’r amser?/Pa rai o’r canlynol ydych chi’n eu hystyried yn ymddygiad problemus yr hoffech eu newid?

38 Cwestiynau a ofynnwyd: Ac a ydych chi neu rywun yn eich cartref wedi ceisio cymorth am yr ymddygiad hwn? (Cymorth proffesiynol/ Ceisio gwybodaeth drosoch chi eich hun)?


"Awgryma Adroddiad CATS 2022 fod perchnogion, pan ofynnwyd iddynt am amlygrwydd ystod o ymddygiadau sydd o bosibl yn gysylltiedig â straen, yn fwy tebygol o adrodd am eu cath yn arddangos ymddygiad amlwg a’r rhai y gallai perchnogion eu hystyried yn ‘broblemus’ neu ‘ddigroeso’, megis arwyddion amlwg o ofn neu grafu dodrefn. Mae llawer o gathod dan straen yn arddangos y straen hynny mewn ffyrdd llai amlwg, ac mae’n bwysig ein bod ni’n ymwybodol o hyn ac yn talu sylw i’r dangosyddion cynnil, hyd yn oed os nad ydynt yn peri problem i ni mewn gwirionedd."

**Dr Lauren Finka**
**Arbenigwr Lles Cathod Cats Protection**


## Tân gwyllt[39]

Gall tân gwyllt beri straen difrifol i lawer o anifeiliaid, ac o'r perchnogion cathod sydd wedi gweld eu cath yn profi tân gwyllt, mae 68% yn dweud eu bod yn cael effaith ar eu cath. O ystyried faint o gathod a allai fod y tu allan a'u perchnogion ddim yn eu gweld, gall y ffigur hwn fod yn llawer uwch. Gall ymatebion amrywio, o ymddygiad digroeso i ymddangos yn hynod ofnus.

### Effaith tân gwyllt ar gathod, yn ôl perchnogion sydd wedi gweld eu cathod yn profi tân gwyllt




Mae Cats Protection yn parhau i alw ar y llywodraeth i gyfyngu ar ddefnydd tân gwyllt heb ei gynllunio a chyfyngu ar yr uchafswm lefelau sŵn, er mwyn helpu perchnogion i ragweld pan fydd arddangosfeydd a chymryd camau priodol, a lleddfu straen pob anifail, gan gynnwys cathod.



39 Cwestiwn a ofynnwyd: A yw eich cath yn tueddu i ddangos unrhyw rai o'r arwyddion straen canlynol wrth glywed tân gwyllt? Wedi'i hidlo yn ôl perchnogion a ddywedodd eu bod wedi gweld eu cath yn profi tân gwyllt



Gall yr holl ymddygiadau hyn nodi straen mewn cathod. I gael rhagor o gyngor am dân gwyllt a straen ymysg cathod, ewch i

www.cats.org.uk/fireworks

sganiwch fi


# Cwmnïaeth, heriau perchnogaeth a chostau byw

## Pam mae pobl yn cael cathod?[40]

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen sydd wedi dod i'r brig fel rhesymau dros fod yn berchen ar gath (48%). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd parhaus cathod fel anifeiliaid anwes ar gyfer lles eu perchnogion.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cwmnïaeth yn llai o ffactor o ran perchnogaeth cathod, gyda chyfran y rhai sy'n berchen ar gath ar gyfer cwmni iddyn nhw/eu teulu yn gostwng o 39% yn 2021 i 33% yn 2022. Mae benywod yn fwy tebygol o fod yn berchen ar gath ar gyfer cwmni iddyn nhw/eu teulu (39%).

**Rhesymau dros fod yn berchen ar gath[40]**





“Daeth atom fel cath strae… nawr mae’n dod i mewn i gysgu ac mae fy ngŵr yn dwlu ar y gwmnïaeth.”
– 63 oed, Cymru

## Beth yw’r manteision o fod yn berchen ar gath?

Dywed 19% o berchnogion cathod mai’r prif reswm dros gael cath yw eu helpu i deimlo llai o straen[40]. Mae ymchwil yn cefnogi’r ffaith fod bod yn berchen ar gath yn cael effaith bositif ar gyflwr emosiynol y perchnogion[41,42].
Mae 89% o berchnogion Cymru yn treulio amser yn rhoi mwythau i’r gath neu’n eistedd gyda’i gilydd bob dydd[43]. Dengys astudiaethau fod rhoi mwythau i anifail anwes yn gallu lleihau pwysedd y gwaed a lefelau colesterol[41].

"Nid yw’n syndod fod cathod yn parhau i fod yn gwmni da i bobl, gan ddod â manteision cysylltiedig i bawb. Fel prif elusen ail-gartrefu cathod y DU, rydyn ni’n falch o helpu i greu cysylltiadau cwmni ag anifeiliaid cryf, ac mae’r rhain yn bwysicach nag erioed mewn cyfnodau o ansicrwydd.

"Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni’n paru ein cathod a pherchnogion newydd drwy ystyried anghenion pawb. Nid dim ond y cathod a’r perchnogion newydd a fydd yn cael perthynas am oes - rydyn ni’n aros mewn cyswllt ar ôl mabwysiadu, gan roi cefnogaeth ble bo angen. Rydyn ni hefyd yn dwlu ar gael diweddariadau."

**Mike Elliott**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cats Protection**

40 Cwestiwn a ofynnwyd: Beth yw’r prif resymau pam rydych chi’n berchen ar gath(od)? Caniateir sawl ateb

41 Hodgson (2015)


42 Nagasawa (2020)

43 Cwestiwn a ofynnwyd: Mewn wythnos arferol, pa mor aml ydych chi’n gwneud y canlynol gyda’ch cath (Treulio amser yn rhoi mwythau i’r gath/eistedd gyda’ch gilydd)? Roedd y ddau brif flwch ymateb yn cynnwys (Ychydig o weithiau mewn dydd, Unwaith neu ddwywaith y dydd)

## Mae cathod yn rhan o'r teulu, ac yn bwysig i'n bywydau bob dydd

Mae mwy o berchnogion cathod Cymru nag erioed yn dweud fod eu cath yn dod â hapusrwydd iddynt (90%, wedi codi o 86%) ac yn rhoi rheswm iddynt godi yn y bore (68%, wedi codi o 60% yn 2021). Mae 66% yn dweud eu bod yn rhoi anghenion y gath o flaen eu hanghenion personol (60% yn 2021). Mae'r cynnydd hwn dros y 12 mis diwethaf yn awgrymu dibyniaeth fwy ymysg perchnogion ar gathod am les emosiynol, ac yn atgyfnerthu ymhellach cryfder y cysylltiad.

### Y berthynas emosiynol y mae perchnogion yn ei mwynhau gyda chathod[44]




44 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda phob un o'r datganiadau canlynol am gael cath(od)? Mae'r ddau flwch ymateb uchaf yn cynnwys (1 = cytuno'n gryf, 7 = anghytuno'n gryf)



Mae Cats Protection yn darparu ystod o wasanaethau sydd â'r nod o gefnogi perchnogion cathod. Mae'r rhain yn cynnwys cymorthdalu am ysbaddu a rhoi microsglodion, cymorth gyda phroblemau ymddygiadol cathod, sgyrsiau cymunedol a sgyrsiau mewn ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, cymorth profedigaeth ac ail-gartrefu cathod wedi marwolaeth y perchennog.


I gael rhagor o fanylion, ewch i **dudalen 2** yr adroddiad hwn.

## Fforddiadwyedd cathod

Mae costau cynyddol yn effeithio ar bron bob agwedd ar fywydau pobl ar hyn o bryd, ac er bod yr argyfwng costau byw ond megis dechrau rhwng Mawrth 2021 ac Ebrill 2022, mae elfennau o ddata eleni yn awgrymu bod yr effeithiau'n amlwg i'r cathod a'r perchnogion. Mae hyn yn benodol wir ar gyfer perchnogion cathod iau.

Bu i ragor o berchnogion cathod Cymru fynegi pryder dros allu fforddio biliau a chostau byw eraill dros y 12 mis nesaf oherwydd cynnydd mewn prisiau (38%) na pherchnogion cathod ledled y DU (30%)[45].

**Pryderon costau i berchnogion cathod Cymru[46]**




45 Cwestiwn a ofynnwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad canlynol (Rwy'n poeni na fyddaf yn gallu talu'r biliau/costau byw dros y 12 mis nesaf oherwydd cynnydd mewn prisiau)? Roedd y ddau flwch ymateb uchaf yn cynnwys (1 = cytuno'n gryf, 7 = anghytuno'n gryf).

46 Cwestiwn a ofynnwyd: Ac wrth feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n berthnasol i chi?


# Beth sydd nesaf o fan hyn?

Eleni, rydym wedi gweld rhai newidiadau i'r tueddiadau. Cymru yw'r unig genedl sydd wedi gweld gostyngiad yn nifer y perchnogion cathod. Wedi dweud hyn, mae cyfran uwch o aelwydydd yn dal i fod yn berchen ar o leiaf un gath yng Nghymru o gymharu ag ar draws y DU. Mae hyn yn dangos fod Cymru yn bendant yn dal yn gymdeithas sy'n caru cathod, gyda mwyafrif y perchnogion cathod yn dangos cymhelliant i gynnig y bywyd gorau posibl i'w hanifeiliaid anwes.

Er ei bod hi'n wych fod pobl yn mwynhau'r llawer o fanteision sy'n deillio o fod yn berchen ar gath, maent hefyd yn adrodd am rai heriau. Mae'n ymddangos fel bod mynediad i wasanaethau milfeddygol yn broblem i fwy o berchnogion cathod yng Nghymru nag yn lleoedd eraill yn y DU, sydd o bosibl yn adlewyrchu nad yw practisau wedi adfer eto ar ôl colli staff yn ystod y pandemig. Mae llawer o'r perchnogion oedd yn rhan o'r arolwg wedi dechrau teimlo'r esgid yn gwasgu gyda'r costau byw cynyddol, gyda niferoedd sylweddol yn nodi pryderon ynghylch fforddiadwyedd gofal milfeddygol.

Gan fod yr argyfwng costau byw yn parhau, mae'n bwysig fod y sector yn gwneud popeth hyd ei allu i gefnogi'r berthynas rhwng anifeiliaid anwes a pherchnogion drwy'r cyfnod anodd iawn hwn. Bydd deall yr elfennau anodd i berchnogion cathod yn helpu i gyfeirio ymyriadau cymorth yn well. Er enghraifft, mae Adroddiad CATS Cymru 2022 wedi amlygu fod cyfran amcangyfrifiedig y perchnogion cathod iau yng Nghymru ar i fyny. Er bod y grŵp hwn i weld yn ymwybodol iawn o lawer o agweddau ar iechyd a lles eu cathod, maen nhw hefyd i weld yn pryderu mwy am y gath, ac yn wynebu rhai heriau ariannol mawr.

Bydd Cats Protection yn parhau i adolygu ffyrdd y gall yr elusen helpu i gefnogi perchnogaeth cathod lle bo'n bosibl, a sicrhau bod cymaint â phosibl dan berchnogaeth yn cael profiad o les da.



# Crynodeb o'r ystadegau

## Poblogaeth gathod

- Mae oddeutu 11 miliwn o gathod ym mherchnogaeth yn y DU
    - Mae dros 560,000 yng Nghymru
- Mae un ym mhob pedwar o aelwydydd Cymru (28%) yn berchen ar gath
- Mae gan bob aelwyd yng Nghymru sy'n berchen ar gath 1.5 o gathod ar gyfartaledd
    - Mae gan 67% un gath
    - Mae gan 33% o leiaf dwy gath
- Yn ôl perchnogion, mae 63% o gathod Cymru yn gathod o frîd cymysg, 24% yn gathod pedigri a 6% yn rhai traws-frîd. Nid oedd y perchnogion sy'n weddill yn ymwybodol o frîd y gath
    - Mae gan 40% o'r perchnogion sy'n berchen ar gath nad ydynt yn rhai o frîd cymysg ardystiad brîd ar gyfer y gath, nid oes gan 51% ac nid yw 9% yn gwybod

## Perchnogion cathod

- Mae bron hanner (46%) perchnogion cathod Cymru a gafodd gath yn y 12 mis diwethaf rhwng 18 a 34 oed, o gymharu â 33% o holl berchnogion cathod Cymru
- Mae 25% o wrywod yn berchen ar gath, a 33% o fenywod yn berchen ar gath
    - Mae 42% o berchnogion cathod yn ddynion a 57% o berchnogion cathod yn fenywod

## Y farchnad gathod

- Mae cathod dan berchnogaeth yng Nghymru yn tueddu i gael eu mabwysiadu gan elusen ail-gartrefu yn y DU (26%), cael eu prynu (23%), neu wedi cael eu mabwysiadu gan gymydog, aelod o'r teulu neu ffrind (20%)
    - Ar gyfer cathod a gaffaelwyd yn y 12 mis diwethaf, cafodd 42% eu prynu a 21% eu mabwysiadu gan elusennau ail-gartrefu yn y DU

## Ysbaddu a micro-sglodion

- Mae 80% o gathod Cymru (450,000) wedi cael eu hysbaddu, 14% heb eu hysbaddu. Nid yw'r 6% sy'n weddill yn gwybod a yw'r gath wedi cael ei hysbaddu
- Amcangyfrifir fod 79,000 o gathod heb eu hysbaddu
    - Mae Cats Protection yn argymell y dylid ysbaddu cathod o bedwar mis oed ymlaen. Dyna pryd maen nhw'n cyrraedd y glasoed ac yn gallu atgenhedlu
- Amcangyfrifir fod gan 370,000 o gathod ficro-sglodion (66%), ac nid oes gan 160,000 (28%) ficro-sglodion. Nid yw'r 6% sy'n weddill yn gwybod a oes gan y gath ficro-sglodyn
- Mae 88% o berchnogion cathod yng Nghymru, sydd wedi rhoi microsglodyn, yn dweud fod eu manylion cyswllt yn gyfredol

## Iechyd

- Mae 71% o berchnogion Cymru yn dweud nad oes gan y gath ddiagnosis o gyflyrau iechyd o gwbl
    - Y cyflwr iechyd a adroddir amdano amlaf yw gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel) (4%)
- Mae 87% o berchnogion cathod wedi cofrestru'r gath gyda milfeddyg
    - Mae oddeutu 73,000 o gathod heb gofrestru gyda milfeddyg
- Mae 54% o gathod yn mynd at y milfeddyg ar gyfer ymweliad rheolaidd bob blwyddyn, ond mae 41% yn mynd pan fydd y perchennog yn credu bod angen, neu byth yn mynd at y milfeddyg (5%)
    - Mae'n bosibl nad yw 260,000 o gathod yn cael mynediad i wiriadau iechyd rheolaidd
- Mae 42% o berchnogion cathod wedi'i chael hi'n anodd mynd at y milfeddyg yn y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn codi i 55% o'r rheiny sydd wedi cael cath yn y 12 mis diwethaf
- Mae 38% o holl berchnogion Cymru wedi yswirio eu cath
    - Cyfartaledd y DU yw 46%

- Mae 69% o berchnogion yn dweud fod eu cath wedi cael y brechiadau cyfredol, wedi codi o 63% yn 2021
    - Nid yw hyd at 175,000 o gathod wedi'u hamddiffyn yn llawn yn erbyn afiechydon a all gael eu hatal drwy frechu
- Mae llai na dau draean o berchnogion yn amddiffyn eu cathod yn rheolaidd yn erbyn parasitiaid megis chwain (60%) a llyngyrod (61%). Mae hyn yn is na'r llynedd (64% ar gyfer chwain a llyngyrod)
- Mae 29% o berchnogion yn dweud bod eu cath dros ei phwysau, mae 25% yn meddwl bod eu cath yn pwyso'n ddelfrydol ac mae 40% yn poeni fod y gath dan bwysau. Dywedodd y 6% sy'n weddill nad oeddent yn gwybod

## Y rôl y mae cathod yn ei chwarae yn ein bywydau

- Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen oedd ar y brig o ran y prif resymau dros fod yn berchen ar gath yng Nghymru (48%)
- Mae 94% o berchnogion yn ystyried y gath yn rhan o'r teulu
- Mae 89% o berchnogion yn siarad â chath yn rheolaidd
- Mae 89% o berchnogion yn treulio amser yn rhoi mwythau i'r gath neu'n eistedd gyda'i gilydd bob dydd
- Mae 69% o berchnogion yn siarad am y gath yn aml
- Mae 68% o berchnogion yn dweud fod y gath yn rhoi rheswm iddynt godi yn y bore
- Mae 66% o berchnogion yn blaenoriaethu anghenion y gath dros anghenion personol

## Bygythiadau i ddiogelwch cathod

- Mae 33% o berchnogion cathod Cymru yn dweud fod eu cathod wedi cael eu hanafu yn yr adeg yr oeddent yn berchen arnynt
    - Roedd un rhan o bump (20%) o'r anafiadau wedi digwydd wrth ymladd â chathod neu anifeiliaid eraill - roedd 11% gyda chathod o aelwyd arall
- Roedd 6% o'r anafiadau oherwydd damwain ar y ffordd, gan godi i 9% mewn ardaloedd trefol
- O'r rhai oedd wedi gweld eu cath yn profi tân gwyllt (77%), mae 68% yn dweud eu bod yn cael effaith andwyol ar y gath, gan gynnwys cuddio (23%) neu geisio dianc/rhedeg i ffwrdd (11%)

## Pryderon costau byw

- Bu i 38% o holl berchnogion cathod Cymru fynegi pryder sylweddol am allu fforddio biliau a chostau byw eraill dros y 12 mis nesaf oherwydd y cynnydd mewn prisiau
    - Cyfartaledd y DU yw 30%
- Mae 4% o berchnogion yn dweud eu bod wedi gorfod lleihau gwariant ar hanfodion cathod megis bwyd cath a blwch gwasarn i arbed arian yn y 12 mis diwethaf
- Mae 4% o berchnogion wedi defnyddio banc bwyd neu elusen i'w helpu nhw i fwydo'u cathod yn y 12 mis diwethaf
- Ar gyfer 20% o berchnogion cathod, cost oedd y rhwystr mwyaf o ran ymweld â'r milfeddyg cymaint ag yr hoffent
    - Mae 18% yn poeni na fyddent yn gallu fforddio bil milfeddygol mawr ar hyn o bryd

**For further information contact stats@cats.org.uk**
**or visit www.cats.org.uk/stats**

Mae Cats Protection yn Elusen Gofrestredig Rhifau 203644 (Cymru a Lloegr) a sc037711 (Yr Alban). Cwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (06772997). Swyddfa Gofrestredig: National Cat Centre, Chelwood Gate, Haywards Heath, Sussex, RH17 7TT

This report was published in September 2022